Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Economi, Masnach a Materion Gwledig**

# Craffu ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru 2024/25

Chwefror 2024

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei Chyllideb Ddrafft ar gyfer 2024-25 ar 19 Rhagfyr 2023.[1] Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu barn y Pwyllgor ar y gyllideb ddrafft, a'i argymhellion.

## Tystiolaeth

**1.** Mae'r adroddiad hwn yn seiliedig ar dystiolaeth a roddwyd i'r Pwyllgor yn ei sesiwn graffu ar y gyllideb a gynhaliwyd ar 18 Ionawr 2024.[2] Cynhaliodd y Pwyllgor ddwy sesiwn graffu, un gyda'r Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd ac un gyda Gweinidog yr Economi. Roedd swyddogion cynorthwyol yn bresennol gyda'r naill Weinidog a'r llall. Mae'r adroddiad hwn hefyd yn cyfeirio at dystiolaeth ysgrifenedig a ddarparwyd i'r Pwyllgor gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd,[3] a Gweinidog yr Economi[4] cyn eu sesiynau tystiolaeth. Mae dwy bennod i'r adroddiad hwn: mae'r gyntaf ar faterion yn ymwneud â chylch gwaith y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, ac mae'r ail yn ymwneud â chylch gwaith Gweinidog yr Economi.

[1] Cyllideb Ddrafft 2024-25 | LLYW.CYMRU
[2] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 18 Ionawr 2024 - Senedd Cymru (senedd.cymru)
[3] Papur tystiolaeth Llywodraeth Cymru – Materion Gwledig (senedd.cymru)
[4] Papur tystiolaeth Llywodraeth Cymru – yr Economi (senedd.cymru)

# Argymhellion

**Argymhelliad 1.** Dylai Llywodraeth Cymru rannu unrhyw ddadansoddiad y mae wedi'i wneud ar effaith net cyllidebau llai ar fusnes, ffermwyr a'r gymuned wledig ehangach gyda Phwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig. ........................... 8

**Argymhelliad 2.** O ganlyniad i gyllidebau llai, mae'n bwysicach nag erioed bod Llywodraeth Cymru yn monitro effaith ei holl wariant yn llawn er mwyn sicrhau'r gwerth gorau am arian. Dylid cynnwys trosolwg o'r gwaith monitro hwn yn y briff nesaf ar y gyllideb y bydd y Gweinidogion yn ei gynhyrchu ar gyfer Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig. ........................................................................................ 8

**Argymhelliad 3.** Rhaid i Lywodraeth Cymru gyflwyno sylwadau i Lywodraeth y DU cyn gynted â phosibl, a pharhau i drafod yn rheolaidd â Llywodraeth y DU, er mwyn sicrhau bod y Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn cael ei ariannu gyda'r swm y mae Llywodraeth Cymru yn credu sydd ei angen i gyflawni ei huchelgais ar gyfer y Cynllun..............................................................................................................................11

**Argymhelliad 4.** Rhaid i Lywodraeth Cymru fonitro'r gwariant ar y Cynlluniau Buddsoddi Gwledig a'r canlyniadau y maent yn eu cynhyrchu i sicrhau bod y canlyniadau gorau posibl yn cael eu cyflawni gyda'r cyllid cyfyngedig sydd ar gael. .........................................................................................................................................12

**Argymhelliad 5.** Rhaid i Lywodraeth Cymru fonitro'n ofalus y gwaith o gynnal a datblygu systemau cyfrifiadurol a ariennir gan y llinell wariant Gweinyddu Cynllun y Taliad Sengl, er mwyn sicrhau nad yw'r dyraniad is yn cael effaith andwyol ar ddarparu'r cynlluniau cymorth gwledig presennol neu gynlluniau o'r fath yn y dyfodol..............................................................................................................................13

**Argymhelliad 6**. Rhaid i Lywodraeth Cymru fonitro effaith y gostyngiad yn y cyllidebau ymgysylltu â chwsmeriaid ar eu gallu i ymgysylltu â ffermwyr. Rhaid iddi hefyd fonitro'r effaith ar allu ffermwyr i ymgysylltu â'r Llywodraeth a'r ddealltwriaeth gyffredinol o'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy disgwyliedig. Os gwelir effaith negyddol, rhaid i Lywodraeth Cymru ystyried cynyddu'r cyllidebau hynny er mwyn pontio'n ddidrafferth i'r Cynllun newydd. ...........................................................14

**Argymhelliad 7.** Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi'r dyraniad llawn ar gyfer Cynllun Cynefin Cymru cyn gynted â phosibl. Fel rhan o'r cyhoeddiad hwn, dylai Llywodraeth Cymru nodi pa mor wahanol fydd dyraniad Cynllun Cynefin Cymru i'r cyllid sydd ar gael o dan Glastir ar gyfer cynlluniau amaeth-amgylcheddol. ............. 16

**Argymhelliad 8.** Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi rhagor o fanylion am sut y bydd Cynllun Cynefin Cymru yn gweithredu cyn gynted â phosibl. Dylai hyn gynnwys unrhyw waith modelu economaidd a wneir a manylion pellach am yr effaith ddisgwyliedig. 16

**Argymhelliad 9.** Dylai Llywodraeth Cymru nodi cynllun ar gyfer monitro effaith Cynllun Cynefin Cymru. 17

**Argymhelliad 10.** Dylai Llywodraeth Cymru greu cynllun i fonitro unrhyw danwariant oherwydd diffyg ceisiadau am gontractau Cynllun Cynefin Cymru neu fethiant i'w cyflawni a'r hyn y gallai ei wneud gydag unrhyw gyllid i sicrhau ei fod yn cael ei ddefnyddio'n llawn i gyflawni amcanion y cynllun. 17

**Argymhelliad 11.** Dylai Llywodraeth Cymru nodi rhagor o fanylion am y cynllun Organig newydd, gan gynnwys cymhariaeth rhwng y cymorth i ffermwyr organig a gynigir o dan y cynllun newydd a'r cynllun blaenorol. 17

**Argymhelliad 12.** Dylai Llywodraeth Cymru nodi pa raglenni sy'n debygol o gael eu gohirio o ganlyniad i'r gostyngiad yn y llinell wariant "Hybu Bwydydd Cymreig a Datblygu'r Diwydiant" a'r effaith y bydd y gohirio hwnnw'n ei chael. 18

**Argymhelliad 13.** Dylai Llywodraeth Cymru nodi sut y mae pob un o'r pedair blaenoriaeth yn y genhadaeth economaidd wedi dylanwadu ar ddyraniadau'r gyllideb, naill ai yn naratif cyffredinol y gyllideb neu ym mhapur y Gweinidog a ddarperir cyn craffu ar y gyllideb yn y dyfodol. 20

**Argymhelliad 14.** O ystyried y cyhoeddiad diweddar am y posibilrwydd o golli swyddi yn Tata Steel a'r pryder ynghylch y busnesau bach a chanolig sydd wedi cau yn ddiweddar, dylai Llywodraeth Cymru roi sicrwydd i weithwyr sy'n wynebu colli eu swyddi y byddant yn gallu cael mynediad at ei rhaglenni cymorth. Dylai gadarnhau ei bwriad i ailflaenoriaethu cyllid o fewn Grŵp Prif Wariant yr Economi fel bod gan ReAct+ ddigon o arian. Dylai hefyd gadarnhau faint o gyllid fydd ei angen i wneud hyn ar ôl i benderfyniad terfynol gael ei wneud mewn perthynas â dyfodol Tata Steel. Dylai Llywodraeth Cymru hefyd adolygu pa rannau o gyllideb yr Economi y gellid eu hail-flaenoriaethu i gefnogi dyraniad mwy. 21

**Argymhelliad 15.** Dylai'r Gweinidog ysgrifennu at y Pwyllgor yn nodi yn union pa feysydd o waith Busnes Cymru a fydd yn cael eu lleihau, eu gohirio neu eu dirwyn i ben o ganlyniad i'r gostyngiad mewn cyllid, ac effaith ddisgwyliedig y lleihad hwnnw mewn gwasanaethau. 23

**Argymhelliad 16.** Dylai Llywodraeth Cymru rannu ei dadansoddiad o effaith y gostyngiad mewn rhyddhad ardrethi busnes ar fusnesau manwerthu, hamdden a lletygarwch gyda'r Pwyllgor. Dylai hyn gynnwys nifer y busnesau yr effeithir arnynt, a faint o ryddhad y byddant yn ei golli. ....25

**Argymhelliad 17**. Dylai Llywodraeth Cymru egluro faint o fusnesau y mae'n rhagweld y byddant yn cael eu cefnogi gan y grant cyfalaf o £20 miliwn, a sut y bydd yn sicrhau bod y busnesau sy'n cael eu heffeithio fwyaf yn sgil colli'r rhyddhad ardrethi busnes yn elwa o'r grantiau cyfalaf. ....25

**Argymhelliad 18.** Rhaid i Lywodraeth Cymru fonitro effaith y gostyngiad mewn rhyddhad ardrethi busnes yn ofalus, ac os yw'n cael effaith fwy difrifol na'r disgwyl, dylai weithredu'n brydlon i unioni hyn. ....25

**Argymhelliad 19.** Dylai Llywodraeth Cymru egluro pa gymorth ariannol y mae'n ei ddarparu i'r Economi Sylfaenol ar draws portffolios Gweinidogol gwahanol yn 2024-25, a sut y mae hyn yn cymharu â 2023-24. ....27

**Argymhelliad 20.** Er mwyn helpu i graffu ar gefnogaeth Llywodraeth Cymru i'r Economi Sylfaenol a rhoi eglurder ar y gwaith sy'n cael ei wneud yn y maes hwn ar draws y Llywodraeth, dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi Cynllun Cyflawni ar gyfer yr Economi Sylfaenol wedi'i ddiweddaru sy'n debyg i'r un a gynhyrchwyd tua diwedd y Senedd ddiwethaf. Dylai Llywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor ar y cynnydd a wnaed o ran cefnogi'r economi sylfaenol yn flynyddol. ....27

**Argymhelliad 21.** Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu rhagor o wybodaeth am y nifer sy'n manteisio ar Gynllun Benthyciadau Busnes Gwyrdd Banc Datblygu Cymru. Fel rhan o hyn, dylent: .... 28

- ddarparu gwybodaeth am sut y mae lefel y galw am gymorth wedi'i gynnwys yn nyraniadau'r gyllideb; .... 28
- egluro a yw maint y Cynllun wedi cynyddu o'r £10 miliwn cychwynnol; a .... 28
- nodi faint o fusnesau sy'n cael eu cefnogi ac y disgwylir iddynt gael eu cefnogi yn y dyfodol gan y cynllun. .... 28

**Argymhelliad 22.** Dylai Llywodraeth Cymru ysgrifennu at y Pwyllgor yn amlinellu ei dadansoddiad o effaith y toriadau i'r gyllideb Brentisiaethau yng Nghyllideb Ddrafft 2024-25. ....31

**Argymhelliad 23.** Dylai Llywodraeth Cymru ysgrifennu at y Pwyllgor yn nodi faint o brentisiaethau newydd sydd yn nharged prentisiaethau tymor y Senedd hon a sut y mae'r Llywodraeth yn bwriadu ei gyflawni. 31

**Argymhelliad 24.** Dylai Llywodraeth Cymru fonitro'n ofalus effaith lleihau'r llinell wariant Allforio, Masnach a Mewnfuddsoddi yn y gyllideb a rhoi gwybod i'r Pwyllgor am unrhyw effaith y mae hyn yn ei chael. 33

**Argymhelliad 25.** Dylai Llywodraeth Cymru ysgrifennu at y Pwyllgor i roi mwy o fanylion am weithgareddau o dan y Cynllun Gweithredu ar gyfer Allforio, gan gynnwys cadarnhau pa rai o'i chamau gweithredu tymor byr a chanolig sydd wedi'u cyflawni ac a fydd yn cael eu cyflawni yn erbyn cyllideb 2024-25. 33

**Argymhelliad 26.** Dylai Llywodraeth Cymru roi gwybod i'r Pwyllgor am ei chyfranogiad mewn teithiau masnach. 33

**Argymhelliad 27.** Dylai Llywodraeth Cymru ysgrifennu at y Pwyllgor yn esbonio sut y mae'r gweithgareddau sydd wedi'u cynllunio ar gyfer Safleoedd Rheoli Ffiniau yn cael eu rhannu rhwng y llinell wariant Tystiolaeth Strategol, Monitro, Ffiniau a Monitro Rhynglywodraethol yn y prif grŵp gwariant Materion Gwledig, a'r llinell Rheoli Ffiniau ym mhrif grŵp gwariant yr Economi. 34

**Argymhelliad 28.** Dylai Llywodraeth Cymru ysgrifennu at y Pwyllgor i roi'r wybodaeth ddiweddaraf ynghylch a yw Llywodraeth Cymru a llywodraeth y DU wedi dod i benderfyniad ar y cyllid ar gyfer Safleoedd Rheoli Ffiniau. 34

**Argymhelliad 29.** Dylai Llywodraeth Cymru ysgrifennu at y Pwyllgor i gadarnhau beth yw effaith bosibl dod i benderfyniad gyda Llywodraeth y DU ynghylch ariannu Safleoedd Rheoli Ffiniau ar ddyraniadau'r gyllideb ddrafft, gan gynnwys y £6.4 miliwn o gronfeydd wrth gefn a ddyrannwyd gan Lywodraeth Cymru i dalu costau tra bod y materion cyllid yn cael eu datrys gyda Llywodraeth y DU. 35

**Argymhelliad 30.** Dylai Llywodraeth Cymru egluro i'r Pwyllgor pa gyfran o'r £6.4 miliwn o gronfeydd wrth gefn yr oedd yn disgwyl eu derbyn gan Lywodraeth y DU. Dylai hefyd gadarnhau a yw'r swm hwn wedi newid yn dilyn trafodaethau rhynglywodraethol o ganlyniad i benderfyniad Llywodraeth y DU i beidio ag ariannu agweddau ar y Safleoedd Rheoli Ffiniau, fel y disgrifir gan y Gweinidog. 35

**Argymhelliad 31.** Dylai Llywodraeth Cymru ysgrifennu at y Pwyllgor i gadarnhau a oes unrhyw gostau wedi'u cynllunio yn 2024-25 sy'n ymwneud â gweithredu cytundebau masnach ryngwladol ar ôl Brexit, gan gynnwys gweithredu, teithiau masnach a theithiau tramor gan y Gweinidogion. 35

# 1. Ailflaenoriaethu cyllid Llywodraeth Cymru

**2.** Ym mis Hydref 2023, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru newidiadau o fewn y flwyddyn i Gyllideb Cymru 2023-24 er mwyn creu “pecyn o newidiadau ariannol sy'n diogelu gwasanaethau cyhoeddus, y Gwasanaeth Iechyd a thrafnidiaeth yng Nghymru”. Ar y pryd, dywedodd Llywodraeth Cymru: “Gofynnwyd i bob portffolio Gweinidogol wneud cyfraniad i ymateb i'r pwysau ariannol eithriadol. Mae Gweinidogion wedi ailflaenoriaethu gwariant a gweithgareddau cymaint â phosibl, yn hytrach na chael gwared ar raglenni yn gyfan gwbl.”[5]

**3.** O ganlyniad i’r newidiadau hyn, gwelwyd gostyngiad o £64 miliwn ym Mhrif Grŵp Gwariant yr Economi a gostyngiad o £39.5 miliwn yn y Prif Grŵp Gwariant Materion Gwledig.[6] Dywedodd y Gweinidog Cyllid wrth y Cyfarfod Llawn fod y mesurau hyn yn angenrheidiol oherwydd “effaith driphlyg chwyddiant, effaith mwy na degawd o gyni ar wasanaethau cyhoeddus, a chanlyniadau parhaus Brexit. Mae'r rhain, ynghyd â chamreolaeth economaidd Llywodraeth y DU, gan gynnwys y gyllideb 'fechan' drychinebus, wedi cyfuno i roi pwysau ar gyllideb ddatganoledig Cymru na welwyd ei debyg erioed o'r blaen.”[7]

**4.** Mae Llywodraeth Cymru wedi parhau â'r dull hwn ar gyfer cyllideb ddrafft 2024-25. Yn ei chyflwyniad i Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru, dywedodd y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol: “Roedd yn anorfod y byddai'r rownd gyllideb hon yn anodd iawn - yr anoddaf yng nghyfnod yr Adolygiad Gwariant presennol. Dyma flwyddyn olaf cyfnod yr Adolygiad Gwariant tair blynedd; blwyddyn olaf pan fo llai o gyllid ar gael i gyflawni ein holl ymrwymiadau statudol, heb sôn am ein blaenoriaethau a'n Rhaglen Lywodraethu uchelgeisiol. Ond yn dilyn Datganiad Hydref y DU, mae ein cyllideb nawr yn werth £1.3bn yn llai mewn termau real na phan gafodd ei gosod yn 2021.” Aeth ymlaen i ddweud:

> *“Rydym wedi ail-lunio ein cyllidebau yn unol â set o egwyddorion arweiniol – diogelu gwasanaethau cyhoeddus rheng flaen craidd cymaint â phosibl; sicrhau'r budd mwyaf i aelwydydd sy'n cael eu taro galetaf; blaenoriaethu swyddi, ble bynnag y bo modd, a gweithio mewn partneriaeth gyda chyrff eraill y sector cyhoeddus i wynebu'r storm ariannol hon gyda'n gilydd.”* [8]

[5] Cyhoeddiad Llywodraeth Cymru
[6] Diweddariad ar sefyllfa ariannol 2023-2024: crynodeb o'r prif newidiadau | GOV. CYMRU
[7] Paragraff 123, Cyfarfod Llawn, 17 Hydref 2023
[8] Naratif Llywodraeth Cymru ar y Gyllideb Ddrafft

**5.** Dywedodd y Gweinidog Materion Gwledig, Gogledd Cymru, a'r Trefnydd wrth yr Aelodau bod y gyllideb hon wedi bod yn un o'r rhai mwyaf heriol - o bosibl y fwyaf heriol erioed - iddi orfod ei hwynebu fel Gweinidog ac i Lywodraeth Cymru orfod ei hwynebu. Dywedodd fod Llywodraeth y DU wedi methu â darparu'r cyllid sydd ei angen ar Lywodraeth Cymru i wneud yr hyn y mae angen iddi ei wneud, heb sôn am yr hyn yr hoffai ei wneud, a bod hynny wedi bod yn hynod o anodd.[9]

**6.** Rhannodd Gweinidog yr Economi y teimladau hyn wrth drafod ei gyllideb gyda'r Pwyllgor. Dywedodd wrth yr Aelodau nad oedd y gyllideb wedi cael ei chreu yn ddi-hid, heb i neb roi fawr o feddwl iddi a heb grafu pen ynghylch y dewisiadau. Cynhaliwyd llu o gyfarfodydd a chafwyd trafodaethau anodd iawn rhwng Gweinidogion, rhwng adrannau, ac o fewn adrannau. Eglurodd mai'r rheswm am hynny oedd bod y dewisiadau'n mynd yn fwyfwy anodd ac yn fwyfwy annymunol.[10]

**7.** O ganlyniad i'r newidiadau hyn, mae'r gyllideb adnoddau ar gyfer yr Economi wedi cael ei lleihau £4 miliwn (0.8%) ac mae'r gyllideb Materion Gwledig wedi cael ei lleihau £29 miliwn (6.4%).[11] Mae'r ffigurau hyn mewn termau arian parod ac nid ydynt yn ystyried chwyddiant.

Archwilir effaith camau ailflaenoriaethu Llywodraeth Cymru a'r gostyngiad canlyniadol yn y cyllidebau Materion Gwledig a'r Economi yn fanwl yn adrannau perthnasol yr adroddiad hwn. Fodd bynnag, mae'r Aelodau'n pryderu am effaith gronnol yr holl ostyngiadau yn y gyllideb a'r posibilrwydd y bydd ffermwyr a busnesau yn dioddef effeithiau niferus a niweidiol. Er enghraifft, efallai y bydd ffermwr sy'n allforio cig ac yn gwerthu i fusnesau lletygarwch lleol yn cael ei effeithio gan y gostyngiad mewn cymorth amaethyddol, y gostyngiad mewn cymorth busnes, y gostyngiad mewn cymorth allforio ar gyfer ei werthiannau rhyngwladol a'r gostyngiad yn y gefnogaeth i letygarwch ar gyfer ei werthiannau domestig.

Mae'r Aelodau'n cydnabod y bu hwn yn gylch cyllidebol anodd iawn i Lywodraeth Cymru ac nad oedd dewisiadau hawdd i'r Gweinidogion. Fodd bynnag, o ganlyniad i'r effaith gyfansawdd bosibl hon o lai o gymorth, rhaid i Lywodraeth Cymru fod yn ystyriol iawn o'r angen i fonitro effaith net ei gweithredoedd a sicrhau bod dull gweithredu cydgysylltiedig ar draws adrannau.

[9] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 18 Ionawr 2024, Paragraff 12
[10] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 18 Ionawr 2024, Paragraff 295
[11] **Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2024-25 (senedd.cymru)**

**Argymhelliad 1.** Dylai Llywodraeth Cymru rannu unrhyw ddadansoddiad y mae wedi'i wneud ar effaith net cyllidebau llai ar fusnes, ffermwyr a'r gymuned wledig ehangach gyda Phwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig.

**Argymhelliad 2.** O ganlyniad i gyllidebau llai, mae'n bwysicach nag erioed bod Llywodraeth Cymru yn monitro effaith ei holl wariant yn llawn er mwyn sicrhau'r gwerth gorau am arian. Dylid cynnwys trosolwg o'r gwaith monitro hwn yn y briff nesaf ar y gyllideb y bydd y Gweinidogion yn ei gynhyrchu ar gyfer Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig.

# 2. Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd

## Cymorth amaethyddol parhaus a'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy

### Cynllun y Taliad Sylfaenol

**8.** Dyma'r flwyddyn olaf cyn cyflwyno'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy ac, yn ei sgil, dirwyn y Cynllun Taliad Sylfaenol i ben. Mae naratif cyllideb Llywodraeth Cymru yn nodi bod newidiadau yn y portffolio Materion Gwledig "yn canolbwyntio ar y cymorth sydd ar gael i baratoi ffermwyr a'r gadwyn gyflenwi ar gyfer y Cynllun Ffermio Cynaliadwy".[12]

**9.** Mae Llywodraeth Cymru wedi cynnal lefel dyraniad adnoddau Cynllun y Taliad Sylfaenol yng nghyllideb ddrafft 2024-25, sef £238 miliwn.[13] Fodd bynnag, nid yw'r dyraniad hwn wedi newid dros y 4 blynedd diwethaf – ers gadael yr UE.

**10.** Dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor fod buddsoddi mewn ffermio, er budd y cyhoedd, yn bwysig a'i bod wedi cadw'r cyllid hwn i sicrhau sefydlogrwydd i ffermwyr. Dywedodd:

> *"it's really important that people understand that, whilst they perhaps wouldn't see farming as a public service, it absolutely is, because they produce the food we eat, the beautiful landscapes that we all appreciate, the environmental outcomes that we get for that public money, is part of the money that a Government, and, in this case, the Welsh Government, invests on behalf of that taxpayer."*

> *"… there were lots of policy reasons why I did that, but that transition to the sustainable farming scheme was one of the main ones. And I also think it provided a level of stability for our farmers in very uncertain times."*[14]

---

[12] Naratif Llywodraeth Cymru ar y Gyllideb Ddrafft
[13] Datganiad Ysgrifenedig: Cyhoeddi terfyn uchaf cyllideb Cynllun Taliad Sylfaenol (BPS) 2024 ac ail daliadau BPS 2023 (19 Rhagfyr 2023) | GOV. CYMRU
[14] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 18 Ionawr 2024, Paragraff 30

**11.** Er i NFU Cymru groesawu'r penderfyniad i barhau â Chynllun y Taliad Sylfaenol[15] cododd bryderon am y toriad mewn termau real y mae'n ei gynrychioli ar ôl chwyddiant, gan ddweud wrth y Pwyllgor Cyllid:

> *"The bank of England Inflation calculator shows the BPS budget would need to increase by £79 million to £317 just to keep pace with the inflation which we have seen over the last decade or so, or expressed another way, the budget is worth over 30% less in real terms that in was when it was set in 2013."*[16]

**12.** Cydnabu'r Gweinidog yr effaith ar ffermwyr:

> *"…clearly, the agricultural sector, like all sectors of the economy, has been impacted with inflation. You will have heard farmers say the 'three Fs', feed, fuel and fertiliser—the costs of those three things. And because of consequences and because of events outside of our control, you're constantly having to deal, it feels like, with a series of crises."*[17]

**13.** Eglurodd y Gweinidog fod dyfodol cyllid amaethyddiaeth Cymru yn dibynnu ar benderfyniadau Llywodraeth y DU. Dywedodd wrth y Pwyllgor:

> *"What will have an effect on the sustainable farming scheme funding is the budget, and, of course, at the moment, we don't know what our budget is going to be for 2025. So, I go back to my answer to Alun: that the UK Government could decide to fund agriculture in a very different way than they have done during this comprehensive spending review. They could say, 'We're not funding you at all', and zero of zero is zero of zero. Will that happen? Unlikely, but we don't know. As I say, if they gave it to us in a Barnett consequential, that would be less. So, that's what will affect the scheme, but I don't think the budget this year will at all."*[18]

Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r penderfyniad i gynnal a chadw Cynllun y Taliad Sylfaenol, ond mae'r Aelodau'n rhannu pryderon NFU Cymru sef, gan nad yw'r

---

[15] NFU Cymru yn croesawu ymrwymiad Llywodraeth Cymru yn y gyllideb i'r cynllun taliad sylfaenol – NFU Cymru (nfu-cymru.org.uk)
[16] WGDB_24-25 10 NFU Cymru.pdf (senedd.cymru)
[17] Paragraff 19, Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 18 Ionawr 2024
[18] Paragraff 78, Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 18 Ionawr 2024.

cyllid a roddwyd wedi'i ddiweddaru i ystyried chwyddiant, ei fod bellach yn cynrychioli lleiafswm yr hyn sydd ei angen. Mae'r Aelodau'n croesawu cydnabyddiaeth y Gweinidog o gostau uwch tanwydd, bwyd anifeiliaid a gwrtaith. Mae'r Aelodau hefyd yn pryderu, er gwaethaf y gyfran gynyddol o gyfalaf dros gyllid refeniw, bod effaith chwyddiant ar y diwydiant adeiladu wedi cynyddu costau ffermwyr yn sylweddol ar gyfer buddsoddi mewn seilwaith.

Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod y Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn cael ei ariannu'n ddigonol i gynnig y lefel gywir o gymorth i ffermwyr a busnesau cysylltiedig, ac yn cyflawni'r amcanion rheoli tir cynaliadwy.

Rhannodd yr Aelodau y pryderon a amlygodd y Gweinidog am yr ansicrwydd ynghylch cyllid amaethyddiaeth yn y dyfodol ar ôl gadael yr UE. Mae'r Pwyllgor o'r farn bod yn rhaid i Lywodraeth Cymru gyflwyno sylwadau cadarn i Lywodraeth y DU cyn gynted â phosibl ynghylch y cyllid a fydd yn angenrheidiol i sicrhau'r canlyniadau sydd eu hangen yn sgil gweithredu'r Cynllun.

**Argymhelliad 3.** Rhaid i Lywodraeth Cymru gyflwyno sylwadau i Lywodraeth y DU cyn gynted â phosibl, a pharhau i drafod yn rheolaidd â Llywodraeth y DU, er mwyn sicrhau bod y Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn cael ei ariannu gyda'r swm y mae Llywodraeth Cymru yn credu sydd ei angen i gyflawni ei huchelgais ar gyfer y Cynllun.

### Cynlluniau buddsoddi gwledig

**14.** Daeth y Rhaglen Datblygu Gwledig i ben ddiwedd 2023. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno cynlluniau buddsoddi gwledig i gefnogi'r cyfnod pontio rhwng y Cynllun Datblygu Gwledig a'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy. Mewn datganiad, dywedodd y Gweinidog y byddai'r cynlluniau'n cefnogi gwytnwch yr economi wledig a'r amgylchedd naturiol.[19]

**15.** Yn y datganiad hwnnw sy'n nodi manylion y cynlluniau, dywedodd y Gweinidog y byddant yn cael eu darparu drwy "fframwaith hyblyg" sy'n ceisio ategu'r "gwaith o ddatblygu'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy, a fydd yn gwobrwyo ffermwyr a rheolwyr tir am y gwaith a wnânt i ymateb i heriau'r argyfyngau hinsawdd a natur ochr yn ochr â chynhyrchu bwyd yn gynaliadwy."

**16.** Yn ôl papur y Gweinidog, bu gostyngiad sylweddol yn yr adnoddau ar gyfer y cynlluniau buddsoddi gwledig yng nghyllideb ddrafft 2024-25. Dyrannodd

[19] Datganiad Ysgrifenedig: Cyllid i gefnogi'r economi wledig a'r newid i'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy (1 Ebrill 2022) | GOV. CYMRU

Cyllideb Ddangosol 2024-25 adnodd gwerth £109.5 miliwn i'r cynlluniau buddsoddi gwledig, tra bod y gyllideb ddrafft yn dyrannu £46.1 miliwn. Mae hyn yn ostyngiad o £63.3 miliwn (-58%) mewn adnoddau. Fodd bynnag, mae'r cynlluniau buddsoddi gwledig wedi gweld cynnydd mewn cyfalaf, o £30 miliwn yng Nghyllideb Ddangosol 2024-25 i £53 miliwn yn y gyllideb ddrafft (cynnydd o £23 miliwn neu 77%). Yn gyffredinol, mae hyn yn golygu y bu gostyngiad o £40.4 miliwn neu ychydig yn llai na 30% yn llinellau gwariant y gyllideb wedi'u cyfuno.

**17.** Eglurodd y Gweinidog fod y gostyngiadau yn ei chyllideb yn gorfod dod o rywle ac aeth ymlaen i ddweud wrth y Pwyllgor bod £100 miliwn ar ôl o hyd yn y cynlluniau buddsoddi gwledig a fydd, yn ei barn hi, o gymorth mawr.[20]

**18.** Fel y gwelir yn y niferoedd uchod, mae'r Gweinidog wedi penderfynu newid swm sylweddol o'r dyraniad ar gyfer y cynlluniau buddsoddi gwledig o wariant refeniw i wariant cyfalaf. Pan ofynnwyd iddi am hyn, dywedodd y Gweinidog wrth yr Aelodau ei bod wedi gwneud y penderfyniad hwn oherwydd bod angen cyfalaf ar rai cynlluniau, a bod rhai rhanddeiliad wedi dweud wrthi mai dyna yw'r ffordd ymlaen.[21]

Mae'r Pwyllgor o'r farn bod y cynlluniau buddsoddi gwledig yn bwysig ar gyfer pontio i'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy ac i gyflawni'r amcanion rheoli tir cynaliadwy. Felly, rhaid monitro ac addasu'r dyraniad is yn y gyllideb ar gyfer y cynlluniau hyn yn ôl yr angen i ganiatáu pontio mor ddidrafferth â phosibl i'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy.

Mae'r Aelodau'n croesawu penderfyniad y Gweinidog i newid y cyllid a ddyrannwyd i'r cynlluniau buddsoddi gwledig o gyllid refeniw i gyllid cyfalaf a'i hymgysylltiad â rhanddeiliaid ar y mater hwn.

Mae'r Aelodau'n cydnabod y gofynnwyd i'r Gweinidog wneud gostyngiadau yn ei chyllideb ac yn deall bod yn rhaid i'r gostyngiadau ddod o rywle. Fodd bynnag, mae'r Aelodau o'r farn bod hyn yn golygu ei bod yn bwysicach nag erioed sicrhau bod arian sy'n cael ei wario drwy'r cymorth amaethyddol yn cael yr effaith fwyaf posibl.

**Argymhelliad 4.** Rhaid i Lywodraeth Cymru fonitro'r gwariant ar y Cynlluniau Buddsoddi Gwledig a'r canlyniadau y maent yn eu cynhyrchu i sicrhau bod y canlyniadau gorau posibl yn cael eu cyflawni gyda'r cyllid cyfyngedig sydd ar gael.

[20] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 18 Ionawr 2024, Paragraff 49
[21] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 18 Ionawr 2024, Paragraff 53

### Adnoddau ar gyfer Systemau TGCh Taliadau Gwledig Cymru

**19.** Mae papur tystiolaeth y Gweinidog ar y gyllideb ddrafft yn dangos bod y dyraniad ar gyfer Gweinyddu Cynllun y Taliad Sengl wedi gostwng £5.5 miliwn, neu 66%.

**20.** Dywedodd y Gweinidog wrth yr Aelodau fod y dyraniad hwnnw ar gyfer cyflawni'r cynlluniau presennol a chynlluniau'r dyfodol. Felly, byddai datblygu systemau TGCh a fydd yn cefnogi'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn dod o'r dyraniad cyllideb hwn. Eglurodd fod y gostyngiad yn golygu y byddai rhywfaint o doriadau yn y nodweddion a gynigir gan y systemau hynny. Er enghraifft, roedd y Gweinidog wedi gobeithio y byddai system rhannu data lawn rhwng cronfeydd data Taliadau Gwledig Cymru, Cyswllt Ffermio a da byw, fodd bynnag mae'n credu ei bod yn bosibl y bydd yn rhaid i hynny gael ei wthio yn ôl.[22]

**21.** Dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor y bydd y lefel is newydd o gyllid caniatáu i'r system barhau, a chael ei chynnal a'i chadw'n barhaus, a'i datblygu er mwyn cyflwyno'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy, a hynny ochr yn ochr â lleihau Cynllun y Taliad Sylfaenol yn y cyfnod pontio o 2025 i 2029. Dywedodd nad yw hyn yn rhywbeth sy'n gwneud iddi golli cwsg.[23]

Mae'r Pwyllgor yn pryderu am y gostyngiad yn y gyllideb ar gyfer datblygu a chynnal a chadw systemau sy'n rhan annatod o gynnal y cynlluniau cymorth gwledig yn effeithlon. Er mwyn cyflwyno'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn llwyddiannus, bydd angen systemau TGCh cadarn o safon uchel. Bydd yn hanfodol bod yr adran yn monitro sut y caiff y systemau cyfredol eu rheoli a datblygiad y systemau newydd i sicrhau eu bod yn addas at y diben yng ngoleuni'r dyraniad cyllideb newydd.

**Argymhelliad 5.** Rhaid i Lywodraeth Cymru fonitro'n ofalus y gwaith o gynnal a datblygu systemau cyfrifiadurol a ariennir gan y llinell wariant Gweinyddu Cynllun y Taliad Sengl, er mwyn sicrhau nad yw'r dyraniad is yn cael effaith andwyol ar ddarparu'r cynlluniau cymorth gwledig presennol neu gynlluniau o'r fath yn y dyfodol.

### Gostyngiad mewn ymgysylltu â chwsmeriaid

**22.** Cafwyd gostyngiad o £50,000 yn y llinell wariant "Ymgysylltu â Chwsmeriaid Amaeth" yn y Gyllideb Ddrafft o gymharu â'r Gyllideb Ddangosol. Caiff y llinell hon

[22] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 18 Ionawr 2024, Paragraff 85
[23] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 18 Ionawr 2024, Paragraff 84

ei disgrifio fel y dull allweddol ar gyfer cyfathrebu ac ymgysylltu â chwsmeriaid amaethyddol a'r diwydiant ehangach ar gynlluniau, polisïau a mentrau a weinyddir gan Lywodraeth Cymru.

**23.** Mae'r llinell wariant "Strategaeth Amaethyddol" hefyd wedi cael ei gostwng £150,000. Yn ei thystiolaeth, dywedodd y Gweinidog y bydd y llinell wariant hon yn y gyllideb yn ariannu'r gwaith o ddadansoddi'r ymgynghoriad a'r ymgysylltiad parhaus â rhanddeiliaid a'r gymuned ffermio i hwyluso'r newidiadau mewn ymddygiad sydd eu hangen i addasu arferion ffermio ar raddfa genedlaethol. Dywedodd hefyd y bydd y dyraniad yn y gyllideb o £500,000 yn ddigonol yn 2024-25 i ariannu datblygiad parhaus y polisi Cynllun Ffermio Cynaliadwy.[24]

**24.** Pan ofynnwyd iddi a fyddai'r gostyngiadau hyn yn cael effaith negyddol ar ansawdd y cymorth, dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor nad oedd yn credu y byddai hynny'n digwydd. Byddai ffyrdd newydd o gyfathrebu'n cael eu mabwysiadu. Cyfeiriodd at y ffaith bod y cyfathrebu â ffermwyr sy'n rhan o Gynllun y Taliad Sylfaenol yn digwydd drwy e-bost erbyn hyn, gan fod hynny'n llawer haws, a bod templedi'n cael eu creu, sy'n galluogi cyfathrebu'n gyflymach ac yn rhwyddach oherwydd y dechnoleg. Dywedodd hefyd y byddai Llywodraeth Cymru yn ceisio lleihau cost mynychu digwyddiadau allweddol.[25]

Mae'r Pwyllgor yn pryderu am y gostyngiad mewn cyllidebau sy'n cefnogi ymgysylltu â rhanddeiliaid. Mae'r Aelodau'n teimlo y bydd ymgysylltiad cryf a reolir yn dda yn hanfodol ar gyfer cyflwyno'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn llwyddiannus.

**Argymhelliad 6**. Rhaid i Lywodraeth Cymru fonitro effaith y gostyngiad yn y cyllidebau ymgysylltu â chwsmeriaid ar eu gallu i ymgysylltu â ffermwyr. Rhaid iddi hefyd fonitro'r effaith ar allu ffermwyr i ymgysylltu â'r Llywodraeth a'r ddealltwriaeth gyffredinol o'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy disgwyliedig. Os gwelir effaith negyddol, rhaid i Lywodraeth Cymru ystyried cynyddu'r cyllidebau hynny er mwyn pontio'n ddidrafferth i'r Cynllun newydd.

[24] Tystiolaeth ysgrifenedig
[25] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 18 Ionawr 2024, Paragraff 100

## Cynllun Cynefin Cymru

### Datblygu Cynllun Cynefin Cymru

**25.** Datblygwyd y Cynllun Cynefin Cymru newydd [26] i "gynnig cymorth amgen i bob ffermwr cymwys, gan gynnwys ffermwyr Glastir Uwch, Tir Comin ac Organig pan ddaw eu contractau i ben ar 31 Rhagfyr 2023." Yn yr amlinelliad o'r Cynllun, mae Llywodraeth Cymru yn dweud bod ganddi dri nod allweddol:

- Diogelu tir cynefin sydd wedi bod o dan fesurau rheoli yn 2023, tan y daw'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy i rym yn llawn yn 2025;
- Dod â thir cynefin ychwanegol, nad oes taliadau rheoli'n cael eu talu arno ar hyn o bryd, o dan fesurau rheoli cynaliadwy cyn i'r Cynllun ddechrau;
- Cadw'r cymorth amgylcheddol ar gyfer tir comin.

**26.** Cyfanswm gwerth y contractau Glastir a dderbyniwyd gan ffermwyr a rheolwyr tir yn 2023 oedd £33 miliwn.[27] Ym mhapur y Gweinidog, nid yw'n glir o linellau'r gyllideb faint sydd wedi'i ddyrannu i'r Cynllun newydd.

**27.** Fis Tachwedd diwethaf, ysgrifennodd y Cadeirydd at y Gweinidog i amlinellu'r pryderon ynghylch y Cynllun yr oedd y Pwyllgor wedi'u cael gan randdeiliaid.[28] Yn seiliedig ar y cyfraddau talu a gyhoeddwyd[29] ym mis Medi, un o'u prif bryderon oedd y byddai'r cynnig newydd dan y Cynllun yn sylweddol is na'r hyn a dalwyd o dan Glastir ac, o ganlyniad, byddai ymdrechion amaeth-amgylcheddol yn cael eu dadwneud.

**28.** Trafododd y Pwyllgor y Cynllun gyda'r Gweinidog pan ymddangosodd ger ei fron yn ei gyfarfod ar 13 Rhagfyr. Yn y sesiwn honno, pan ofynnwyd iddi am fodelu economaidd, dywedodd y Gweinidog wrth yr Aelodau na wnaed unrhyw waith modelu, gan fod yn rhaid dylunio cynllun yn gyflym iawn. Gwyddai na fyddai'r cyllid yn agos at yr hyn a gafwyd ar gyfer Glastir a dywedodd y byddai'n cyhoeddi swm y cyllid ar ôl i'r gyllideb drafft gael ei chyflwyno yr wythnos ganlynol.[30]

[26] Cynllun Cynefin Cymru: amlinelliad [HTML] | LLYW.CYMRU
[27] Ymateb Llywodraeth Cymru i gwestiwn ysgrifenedig
[28] Llythyr gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, 23 Tachwedd 2023
[29] Cynllun Cynefin Cymru: amlinelliad [HTML] | LLYW.CYMRU
[30] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 13 Rhagfyr 2023, Paragraff 17

**29.** Fodd bynnag, nid yw'r Gyllideb Ddrafft na phapur y Gweinidog yn nodi'r dyraniad ar gyfer y Cynllun. Pan ofynnwyd iddi am hyn, eglurodd y Gweinidog:

> *"I can't announce that yet. At the moment, we are working with people who've applied for the scheme. What I have said is everyone who has applied for the Habitat Wales scheme will be offered a contract. It's obviously up to them whether they accept that contract or not. So, that is being worked through at the moment. I would imagine it will be the end of February before I can announce what the budget is."*[31]

Mae'r Pwyllgor yn siomedig nad oes rhagor o wybodaeth am y dyraniad cyllid na gweithrediad Cynllun Cynefin Cymru yn y Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2024-25 a'r papurau cysylltiedig. Er bod yr Aelodau'n deall bod y Cynllun yn cael ei ddatblygu'n gyflym, byddai'r Pwyllgor wedi disgwyl i fwy o wybodaeth bendant fod wedi'i chyhoeddi ynghylch sut y bydd y cynllun yn gweithio a'r gyllideb sydd ar gael.

Mae'n amlwg bod y newid i Gynllun Cynefin Cymru yn peri rhywfaint o bryder ymhlith rhanddeiliaid. Mae'r Gweinidog wedi dweud nad yw'n gallu rhoi manylion pendant nes eu bod wedi edrych ar yr holl geisiadau. Mae'r Pwyllgor yn credu y dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi gwybodaeth am gyfanswm y dyraniad, ac unrhyw ragdybiaethau sydd ynghylch sut y caiff y system ei rheoli neu sut y rhoddir yr arian, cyn gynted â phosibl.

Mae'r Aelodau hefyd yn nodi bod y Gweinidog wedi datgan y byddai pob ymgeisydd yn cael cynnig contract. Mae gan yr Aelodau ddiddordeb gwybod beth fydd yn digwydd i'r cronfeydd a ddyrennir i gontractau nad ydynt yn cael eu dyfarnu neu na chânt eu cyflawni. Dylai Llywodraeth Cymru nodi cynllun ar gyfer unrhyw danwariant a grëwyd yn y modd hwn, a sut y gellir ei ddefnyddio i gyflawni canlyniadau yn unol ag amcanion y cynllun.

**Argymhelliad 7.** Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi'r dyraniad llawn ar gyfer Cynllun Cynefin Cymru cyn gynted â phosibl. Fel rhan o'r cyhoeddiad hwn, dylai Llywodraeth Cymru nodi pa mor wahanol fydd dyraniad Cynllun Cynefin Cymru i'r cyllid sydd ar gael o dan Glastir ar gyfer cynlluniau amaeth-amgylcheddol.

**Argymhelliad 8.** Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi rhagor o fanylion am sut y bydd Cynllun Cynefin Cymru yn gweithredu cyn gynted â phosibl. Dylai hyn

[31] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 18 Ionawr 2024, Paragraff 61

gynnwys unrhyw waith modelu economaidd a wneir a manylion pellach am yr effaith ddisgwyliedig.

**Argymhelliad 9.** Dylai Llywodraeth Cymru nodi cynllun ar gyfer monitro effaith Cynllun Cynefin Cymru.

**Argymhelliad 10.** Dylai Llywodraeth Cymru greu cynllun i fonitro unrhyw danwariant oherwydd diffyg ceisiadau am gontractau Cynllun Cynefin Cymru neu fethiant i'w cyflawni a'r hyn y gallai ei wneud gydag unrhyw gyllid i sicrhau ei fod yn cael ei ddefnyddio'n llawn i gyflawni amcanion y cynllun.

### Cymorth dros dro i ffermwyr organig

**30.** Ar sail y pryder a fynegwyd gan randdeiliaid i'r Gweinidog a'r Pwyllgor na fyddai'r Cynllun yn rhoi digon o gymorth i ffermwyr organig, fe wnaeth y Gweinidog ymrwymiad i gyflwyno rhywfaint o gymorth penodedig. Dywedodd wrth yr Aelodau ei bod yn gobeithio cyhoeddi union swm y cyllid ym mis Ionawr, ond rhybuddiodd na fyddai'n swm sylweddol.[32]

**31.** Ar 17 Ionawr, cyhoeddodd y Gweinidog y Taliad Cymorth Organig ar gyfer 2024.[33] Fel rhan o'r cyhoeddiad hwn, nododd Llywodraeth Cymru yr elfennau cymhwystra[34] a'r cyfraddau talu.[35] Dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor y byddai gan y cynllun £2 filiwn o gyllid.

Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r cymorth penodol ychwanegol sy'n cael ei gynnig i ffermwyr organig. Er bod yr Aelodau'n deall bod y gronfa hon yn cael ei datblygu'n gyflym, hoffent gael rhagor o wybodaeth am sut y mae'n cymharu â'r ddarpariaeth flaenorol a gafodd ffermwyr organig o dan Glastir (gan gynnwys lefel y cyllid).

**Argymhelliad 11.** Dylai Llywodraeth Cymru nodi rhagor o fanylion am y cynllun Organig newydd, gan gynnwys cymhariaeth rhwng y cymorth i ffermwyr organig a gynigir o dan y cynllun newydd a'r cynllun blaenorol.

[32] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 13 Rhagfyr 2023, Paragraff 105
[33] Datganiad Ysgrifenedig: Cyhoeddi Taliad Cymorth Organig 2024 (17 Ionawr 2024) | LLYW. CYMRU
[34] Cymorth Organig 2024: crynodeb [HTML] | LLYW.CYMRU
[35] Cymorth Organig 2024: crynodeb [HTML] | LLYW.CYMRU

## Bwyd a Diod

**32.** Yn ôl papur tystiolaeth y Gweinidog, bu gostyngiad o £2.3 miliwn yn y cyllid a ddyrannwyd i "Hybu Bwydydd Cymreig a Datblygu'r Diwydiant", h.y. gostyngiad o 32%. Bydd cyllideb 2024-25 yn £4.8 miliwn.

**33.** Esboniodd y Gweinidog y gostyngiad hwn gan ddweud bod y gyllideb ar gyfer y prosiectau bwyd a diod wedi cael ei chwtogi'n sylweddol gan y bu'n rhaid iddi wneud toriadau yn rhywle. Aeth ymlaen i ddweud y bydd llawer o bethau'n cael eu hoedi ond ei bod yn gobeithio gallu ailgydio ynddynt pe bai'r llywodraeth yn cael rhagor o gyllid.[36]

**34.** Amlygodd un o swyddogion y Gweinidog hefyd nad Hybu Bwydydd Cymreig a Datblygu'r Diwydiant yw'r unig linell wariant sy'n cefnogi busnesau bwyd. Dywedodd wrth yr Aelodau fod rhai o'r cynlluniau mwy poblogaidd yn cael eu cyllido o'r llinell cynllun buddsoddi gwledig, er enghraifft, y cynllun sbarduno busnesau bwyd a'r cynllun arloesi cynaliadwy.

Mae'r Aelodau'n pryderu am effaith bosibl cwtogi'r llinell Hybu Bwydydd Cymreig a Datblygu'r Diwydiant yng Nghyllideb Ddrafft 2024-25, gan y bu hyn yn cefnogi nifer o fusnesau bach. Hoffai'r Aelodau gael mwy o eglurder ynghylch effaith y gostyngiad hwn, yn benodol pa raglenni y mae'r Gweinidog yn rhagweld y byddant yn cael eu gohirio a'r effaith y bydd hynny'n ei chael.

**Argymhelliad 12.** Dylai Llywodraeth Cymru nodi pa raglenni sy'n debygol o gael eu gohirio o ganlyniad i'r gostyngiad yn y llinell wariant "Hybu Bwydydd Cymreig a Datblygu'r Diwydiant" a'r effaith y bydd y gohirio hwnnw'n ei chael.

[36] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 18 Ionawr 2024, Paragraff 191

# 3. Gweinidog yr Economi

## Blaenoriaethau

**35.** Ar 28 Tachwedd, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru "Cenhadaeth economaidd: blaenoriaethau ar gyfer economi gryfach":[37] Mae hwn yn cynnwys pedwar maes blaenoriaeth:

- Pontio cyfiawn a ffyniant gwyrdd:
- Platfform i bobl ifanc, gwaith teg, sgiliau a llwyddiant;
- Partneriaethau cryfach ar gyfer rhanbarthau cryfach a'r economi bob dydd; a
- Buddsoddi ar gyfer twf:

**36.** Yn ystod ei sesiwn gyda'r Pwyllgor, ymhelaethodd y Gweinidog ar ystyr y flaenoriaeth partneriaethau cryfach. Esboniodd fod y llywodraeth yn ymchwilio i weithio gyda rhanbarthau a gwahanol grwpiau o bobl. Roedd hefyd yn dal i geisio gwarchod peth o'r gwaith yr oedd yn ei wneud gyda'n rhanbarthau economaidd, gan ystyried potensial cynnig y mae gan bawb ddealltwriaeth dda ohono.[38]

**37.** Aeth ymlaen i ddweud bod yn rhaid iddo feddwl faint y byddai'n ei gadw o fewn y gyllideb busnes a'r rhanbarthau i sicrhau y gallai gefnogi prosiectau a fyddai'n darparu swyddi lle y mae eu hangen. Dywedodd wrth yr Aelodau ei fod hefyd yn ystyried y cydbethnasoedd a sut y maent yn gweithio. Roedd y darn hwnnw o waith yn ymwneud â sut i ddefnyddio arian yn effeithiol yn hytrach nag ymwneud â'r gyllideb. Roedd angen deall ble nad oedd angen cymorth y Llywodraeth ar y rhanbarth hwnnw, wedi'i arwain gan awdurdodau lleol, ble roedd angen i'r Llywodraeth fod yn bartner, a ble mae angen i'r Llywodraeth wneud penderfyniadau.[39]

Canfu'r Pwyllgor fod yr esboniad hwn o'r flaenoriaeth 'partneriaethau cryfach ar gyfer rhanbarthau cryfach a'r economi bob dydd' yn ddefnyddiol iawn. Byddai'r Aelodau'n gwerthfawrogi dadansoddiad tebyg o bob un o'r tair blaenoriaeth

[37] Cenhadaeth economaidd: blaenoriaethau ar gyfer economi gryfach [HTML] | LLYW.CYMRU
[38] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 18 Ionawr 2024, Paragraff 249
[39] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 18 Ionawr 2024, Paragraff 250

arall i ddeall, yng nghyd-destun sefyllfa'r gyllideb bryd hynny, sut y maent wedi dylanwadu ar dyraniadau'r gyllideb.

**Argymhelliad 13.** Dylai Llywodraeth Cymru nodi sut y mae pob un o'r pedair blaenoriaeth yn y genhadaeth economaidd wedi dylanwadu ar ddyraniadau'r gyllideb, naill ai yn naratif cyffredinol y gyllideb neu ym mhapur y Gweinidog a ddarperir cyn craffu ar y gyllideb yn y dyfodol.

## Cefnogi gweithwyr sy'n wynebu colli eu swyddi

**38.** Mae papur y Gweinidog yn egluro mai Cymunedau am Waith a Mwy a ReAct+ "yw prif ymatebion Llywodraeth Cymru i ddiswyddiadau ar raddfa fawr".[40] Esboniodd hefyd: "Mae rhaglenni Cyflogadwyedd a Sgiliau, yn cynnwys Cymunedau am Waith a Mwy, Twf Swyddi Cymru+ a React+, a'u rhaglenni blaenorol, wedi elwa'n sylweddol o gyllid Cronfa Gymdeithasol Ewrop o dan rownd rhaglenni 2014-20 gyda chyfanswm o £181m o Gronfa Gymdeithasol Ewrop wedi'i gymeradwyo ar gyfer y gweithgareddau hyn. Gyda Chronfa Gymdeithasol Ewrop yn dod i ben yn 23-24 a heb gyllid newydd, mae hyn yn her sylweddol o ran cymorth cyflogadwyedd a sgiliau o 24-25 ymlaen."[41]

**39.** Mae'r Asesiad Effaith Integredig Strategol sy'n cyd-fynd â'r Gyllideb Ddrafft yn nodi (paragraff 124): "Rydym yn ailflaenoriaethu £19m o gyllid ar gyfer cyllidebau cyflogadwyedd a sgiliau sy'n galluogi cyflwyno gweithgareddau cyflogadwyedd a sgiliau allweddol, gan gynnwys Cymunedau am Waith +, Twf Swyddi Cymru+ a ReAct+".[42]

**40.** Yng nghyfarfod y Pwyllgor, dywedodd y Gweinidog wrth yr Aelodau fod y gyllideb ar gyfer ReAct wedi'i lleihau. Dros y flwyddyn neu ddwy ddiwethaf, nid yw'r gyllideb ar gyfer ReAct+ wedi cael ei defnyddio'n llawn, gan ei bod yn cael ei harwain gan y galw. Dywedodd y Gweinidog ei fod yn pryderu pe bai nifer sylweddol o swyDdi'n cael eu colli y byddai angen iddo drosglwyddo cyllid o rannau eraill o'r gyllideb er mwyn sicrhau bod darpariaeth ReAct+ ar gael. Mae'r sefylla bob amser yn dibynnu ar yr hyn sy'n digwydd yn y gweithle, meddai.[43] Dywedodd hefyd:

> *"ReAct+ is very much on my mind given that it is possible that large job losses could happen in the nearer to medium term.*

[40] Tystiolaeth ysgrifenedig
[41] Tystiolaeth ysgrifenedig
[42] Naratif Llywodraeth Cymru ar Gyllideb Ddrafft 2024-25
[43] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 18 Ionawr 2024, Paragraff 312

> *So, it's always a concern, but what I then have to do as a Minister is, if I find a great deal more demand in one area than another, in an area where I don't think it would be acceptable to say, 'We're full, and you've missed the bus', I then have to look within my department, to start off with, or I need to ask central finance if there's any extra flexibility."*

**41.** Er hynny, aeth ymlaen i ddweud mai ychydig iawn o hyblygrwydd a oedd ar gael o ystyried y sefyllfa ariannol y mae Llywodraeth Cymru ynddi. [44]

**42.** Rhwng yr amser y derbniwyd tystiolaeth y Gweinidog a chyhoeddi'r adroddiad hwn, cyhoeddodd Tata y bydd yn ymgynghori ar newidiadau i'w waith dur yn Ne Cymru a allai arwain at golli nifer sylweddol o swyddi.[45] Yn sgil hynny, rhagwelir y bydd rhagor o swyddi'n cael eu colli mewn busnesau a oedd yn cyflenwi Tata Steel neu'n dibynnu ar staff gwaith dur ar gyfer eu masnach. Er mai Tata Steel yw'r cyhoeddiad mwyaf amlwg, mae llawer o fusnesau eraill llai wedi cau ers dechrau'r flwyddyn newydd, yn enwedig yn y sectorau manwerthu a lletygarwch.[46]

Mae'r Pwyllgor yn bryderus iawn am effaith cyhoeddiad Tata Steel a'r posibilrwydd o ddileu swyddi ar y gweithwyr, eu teuluoedd a'r gymuned ehangach. Mae'r Aelodau hefyd yn pryderu am nifer y busnesau bach a chanolig sydd wedi cau yn ddiweddar a'r posibilrwydd o golli swyddi ohonynt.

Bydd rhaglenni cyflogadwyedd yn hanfodol i gefnogi pobl sydd wedi'u diswyddo o Tata Steel a'r rhai sy'n colli eu swyddi yn sgil cau busnesau llai. Mae'n bwysig bod Llywodraeth Cymru yn camu i'r adwy i gynnig cymorth er mwyn helpu pobl i ddychwelyd i'r gwaith ar ôl iddynt gael eu diswyddo.

**Argymhelliad 14.** O ystyried y cyhoeddiad diweddar am y posibilrwydd o golli swyddi yn Tata Steel a'r pryder ynghylch y busnesau bach a chanolig sydd wedi cau yn ddiweddar, dylai Llywodraeth Cymru roi sicrwydd i weithwyr sy'n wynebu colli eu swyddi y byddant yn gallu cael mynediad at ei rhaglenni cymorth. Dylai gadarnhau ei bwriad i ailflaenoriaethu cyllid o fewn Grŵp Prif Wariant yr Economi fel bod gan ReAct+ ddigon o arian. Dylai hefyd gadarnhau faint o gyllid fydd ei angen i wneud hyn ar ôl i benderfyniad terfynol gael ei wneud mewn perthynas â

[44] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 18 Ionawr 2024, Paragraff 314
[45] Camau nesaf Tata Steel tuag at wneud dur mewn ffordd werdd yng nghyhoeddiad y DU
[46] https://www.bbc.co.uk/news/uk-wales-67961150

dyfodol Tata Steel.  Dylai Llywodraeth Cymru hefyd adolygu pa rannau o gyllideb yr Economi y gellid eu hail-flaenoriaethu i gefnogi dyraniad mwy.

## Cymorth Busnes

**43.** Yng Nghyllideb Ddrafft 2024-25, y dyraniad i Busnes Cymru yw £20.926 miliwn. Mae hyn yn ostyngiad o dros £5.5 miliwn (dros 20%) o gymharu â'r gyllideb ar gyfer 2023-24. Eglurodd papur tystiolaeth y Gweinidog y gostyngiad hwn drwy ddweud: "Mae diffyg mynediad at y Gronfa Ffyniant Gyffredin a'r crebachu mewn termau real ar ein grant bloc gan Lywodraeth y DU wedi golygu ein bod wedi gorfod gwneud penderfyniadau anodd ynghylch ein blaenoriaethau cyllideb er mwyn cyflawni cynlluniau Prentisiaethau, Cyflogadwyedd a Busnes Cymru sydd, yn y gorffennol, wedi elwa o gymorth ariannol yr UE."[47]

**44.** Pan ofynnwyd i'r Gweinidog am effaith y gostyngiad hwn, dywedodd wrth yr Aelodau y bydd y ffaith bod llai o arian ar gael yn golygu bod y Llywodraeth yn gallu gwneud llai. Felly byddai angen i Busnes Cymru edrych eto ar yr arbedion ac ar yr hyn y gall ei wneud. Dywedodd y byddai mwy o gymorth ar gael ar ffurf digidol—sy'n rhywbeth y mae rhai busnesau yn dymuno ei gael—a bydd angen meddwl sut i ddarparu cymorth personol wyneb yn wyneb hefyd. Mae hynny'n golygu y bydd llai o raglenni peilot ac allgymorth i wahanol ardaloedd oherwydd bydd angen meddwl am yr hyn sy'n gweithio a'r hyn y mae busnesau'n dweud sydd ei angen arnynt.[48] Aeth ymlaen i ddweud y bydd gan Busnes Cymru yr un amcanion ond bydd y gostyngiad mewn cyllid yn effeithio ar faint y gall ei wneud.

**45.** Tynnodd y Gweinidog sylw at dystiolaeth gan Ysgol Busnes Caerdydd a ganfu fod y busnesau a gefnogwyd gan Busnes Cymru yn fwy llwyddiannus o ran twf busnes a'u dichonoldeb ar ôl dwy flynedd.[49] Amlygodd tystiolaeth y Ffederasiwn Busnesau Bach i'r Pwyllgor Cyllid hefyd y rôl bwysig y mae Busnes Cymru yn ei chwarae wrth gefnogi menywod a grwpiau lleiafrifol mewn busnes.[50]

Mae Busnes Cymru yn darparu offeryn pwysig i gefnogi busnesau a thwf economaidd yng Nghymru. O'r herwydd, mae'n hanfodol ar gyfer cefnogi entrepreneuriaid, a chreu a chynnal swyddi. Yn y sesiwn gyda'r Pwyllgor, cynigiodd y Gweinidog ysgrifennu at yr Aelodau i amlinellu gwir effaith y toriad yn y cyllid i Busnes Cymru. Hoffai'r Aelodau ddeall effaith y gostyngiad mewn cyllid ar allbynnau Busnes Cymru. Byddai ganddynt ddiddordeb mewn gwybod

[47] Tystiolaeth ysgrifenedig
[48] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 18 Ionawr 2024, Paragraff 322
[49] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 18 Ionawr 2024, Paragraff 318
[50] WGDB_24-25 45 Federation of Small Businesses FSB.pdf (senedd.wales) (saesneg yn unig)

pa feysydd gwaith fydd yn cael eu newid, eu lleihau, eu gohirio neu eu dileu ac effaith ddisgwyliedig hynny. Felly, hoffai'r Pwyllgor dderbyn y cynnig hwnnw gan y Gweinidog.

**Argymhelliad 15.** Dylai'r Gweinidog ysgrifennu at y Pwyllgor yn nodi yn union pa feysydd o waith Busnes Cymru a fydd yn cael eu lleihau, eu gohirio neu eu dirwyn i ben o ganlyniad i'r gostyngiad mewn cyllid, ac effaith ddisgwyliedig y lleihad hwnnw mewn gwasanaethau.

## Cefnogi busnesau yn y sectorau manwerthu, hamdden a lletygarwch

**46.** Mae'r Gyllideb Ddrafft yn gwneud rhai newidiadau i'r cymorth presennol sydd ar gael i fusnesau yn y sectorau manwerthu, hamdden a lletygarwch yn 2024-2025. Bydd y rhyddhad ardrethi busnes (rhyddhad ardrethi annomestig) ar gyfer busnesau cymwys yn y sectorau hyn yn cael ei ostwng o 75% yn 2023-24 i 40% yn 2024-25. Fodd bynnag, bydd cronfa gyfalaf gwerth £20 miliwn yn cael ei sefydlu i helpu busnesau bach yn y sectorau hyn i ddiogelu eu hunain yn y dyfodol.[51]

**47.** Mae UK Hospitality Cymru wedi galw ar Lywodraeth Cymru i gadw'r gyfradd rhyddhad ardrethi busnes o 75%. Mae UK Hospitality Cymru wedi edrych ar yr hyn y bydd busnesau yng Nghymru yn ei dalu o'i gymharu â'u cymheiriaid yn Lloegr, lle y mae'r gyfradd rhyddhad o 75% wedi'i chynnal. Mae ei amcangyfrifon yn nodi:

> *"a typical local pub will see their bills rise by £6,500 more than pubs in England. The same goes for our iconic coastal hotels – they'll be paying more than £20,000 than their English counterparts."*[52]

**48.** Galwodd y Ffederasiwn Busnesau Bach hefyd am wrthdroi'r toriad i'r cymorth ar gyfer ardrethi busnes. Dywedodd:

> *"Constrained customer spending caused by the cost-of-living crisis along with massive and sometimes intolerable energy costs and other inflationary pressures continue to squeeze Welsh high street businesses which were already reeling from the legacy of the Covid pandemic. Given this backdrop therefore, it remains baffling why Welsh Government has made*

[51] Naratif Llywodraeth Cymru ar Gyllideb Ddrafft 2024-25
[52] UK Hospitality Cymru yn galw am fwy o ddiwygio a rhyddhad ardrethi busnes

*the decision in their draft budget to slash vital business rate relief support when businesses are so weakened".*[53]

**49.** Dywedodd y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol wrth y Pwyllgor Cyllid:

*"For the retail, hospitality and leisure sector, we've decided to set that rate at 40 per cent for next year, so essentially tapering down from what was only ever intended to be a short-term relief in any case, but also putting in place a £20 million capital fund so that businesses will be able to look to that fund to provide support for becoming more sustainable in future. Now, we're still working up the details of that fund, but it might be, for example, around decarbonisation or that kind of work. So, as I say, on that fund, the detail is still being set, but it will be there at £20 million."*[54]

**50.** Yn y Cyfarfod Llawn, pan ofynnwyd iddi a allai wrthdroi'r gostyngiad mewn rhyddhad ardrethi busnes, dywedodd y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol: "Mae arnaf ofn nad oes modd inni adolygu'r penderfyniad mewn perthynas â chymorth ardrethi busnes ar gyfer y flwyddyn nesaf. Byddwn yn dal i ddarparu oddeutu traean o £1 biliwn o ryddhad ardrethi i fusnesau ledled Cymru. A'r gwir amdani yw mai ychydig iawn o arian ychwanegol a ddarparwyd yn natganiad yr hydref i ddiwallu'r pwysau sy'n ein hwynebu, a phenderfynodd Llywodraeth Cymru, yn y pen draw, fod yn rhaid inni flaenoriaethu ein gwasanaethau cyhoeddus craidd rheng flaen."[55]

**51.** Pan ofynnwyd i Weinidog yr Economi am y gronfa grant cyfalaf gwerth £20 miliwn, dywedodd wrth y Pwyllgor y byddai'n fater o wythnosau ac nid misoedd cyn y byddai'n darparu'r manylion ar gyllid a bod Llywodraeth Cymru wrthi'n trafod dyluniad y gronfa gydag amrywiaeth o randdeiliaid busnes ac yn edrych ar sut y gallai sicrhau'r effaith fwyaf posibl gyda rhanddeiliaid. Eglurodd fod y cyllid cyfalaf a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru yn ystod COVID wedi caniatáu i fusnesau wneud gwaith cyfalaf, gan nad oedd ganddynt yr amser i wneud hynny o'r blaen ac nad oeddent wedi ystyried ei wneud, o ran rhedeg eu busnes, ond bod hynny wedyn wedi gwella'r busnes." Amlygodd y Gweinidog hefyd y ffaith y byddai'r rhan fwyaf o'r gwaith y gwariwyd yr arian cyfalaf arno hefyd yn cael ei

[53] Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru yn galw am ailfeddwl ardrethi busnes
[54] Y Pwyllgor Cyllid, 20 Rhagfyr 2023, Paragraff 98
[55] Cyfarfod Llawn, 24 Ionawr 2024, Paragraff 10

wneud gan gwmnïau lleol, felly byddai'r arian hwn yn cefnogi'r busnes sy'n ei dderbyn a chwmnïau lleol eraill yn eu hardal.[56]

Mae'r Pwyllgor yn pryderu am effaith y gostyngiad yn y cymorth ardrethi busnes ar fusnesau bach ledled Cymru tra eu bod yn wynebu cymaint o heriau eraill. Mae'r Aelodau'n cydnabod bod Llywodraeth Cymru wedi gorfod gwneud penderfyniadau anodd ynghylch sut i ddyrannu cyllid. Mae'r Pwyllgor o'r farn ei bod yn hanfodol monitro effaith y gostyngiad yn fanwl, a bod camau'n cael eu cymryd os yw'n cael effaith fwy difrifol nag a ragwelwyd.

Mae'r Aelodau'n awyddus i glywed mwy o wybodaeth am y cyllid cyfalaf o £20 miliwn a fydd yn cael ei gynnig i helpu busnesau bach. Mae'r Aelodau'n falch bod hyn yn cael ei gynnig a bod rhanddeiliaid yn cael eu cynnwys yn y gwaith o'i ddatblygu. Mae'r Pwyllgor yn nodi bod rhyddhad ardrethi busnes yn ddull syml iawn o ddarparu cymorth, gan ei fod yn gyffredinol ac yn cael ei gymhwyso'n awtomatig i fil busnes. Mae gan y Pwyllgor bryderon ynghylch sut y bydd busnesau'n cael gwybod am y cynnig cyllid cyfalaf newydd ac am unrhyw faich biwrocrataidd posibl a roddir ar fusnesau bach yn sgil y broses ymgeisio.

**Argymhelliad 16.** Dylai Llywodraeth Cymru rannu ei dadansoddiad o effaith y gostyngiad mewn rhyddhad ardrethi busnes ar fusnesau manwerthu, hamdden a lletygarwch gyda'r Pwyllgor. Dylai hyn gynnwys nifer y busnesau yr effeithir arnynt, a faint o ryddhad y byddant yn ei golli.

**Argymhelliad 17**. Dylai Llywodraeth Cymru egluro faint o fusnesau y mae'n rhagweld y byddant yn cael eu cefnogi gan y grant cyfalaf o £20 miliwn, a sut y bydd yn sicrhau bod y busnesau sy'n cael eu heffeithio fwyaf yn sgil colli'r rhyddhad ardrethi busnes yn elwa o'r grantiau cyfalaf.

**Argymhelliad 18.** Rhaid i Lywodraeth Cymru fonitro effaith y gostyngiad mewn rhyddhad ardrethi busnes yn ofalus, ac os yw'n cael effaith fwy difrifol na'r disgwyl, dylai weithredu'n brydlon i unioni hyn.

## Yr Economi Sylfaenol

**52.** Mae Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru yn cynnwys ymrwymiad i "adeiladu ar ein gwaith ar yr Economi Sylfaenol a datblygu Cronfa Cefnogi Cwmnïau Lleol i gefnogi busnesau lleol."[57] Fodd bynnag, mae'r Gyllideb Ddrafft yn

[56] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 18 Ionawr 2024, Paragraff 347
[57] Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru: diweddariad [HTML] LLYW.CYMRU

lleihau'n sylweddol y brif linell wariant yn y gyllideb sydd â'r nod o gefnogi'r Economi Sylfaenol.

**53.** Mae papur y Gweinidog yn nodi: "Fel rhan o'n cyfraniad i gefnogi ymarfer ailflaenoriaethu ehangach Llywodraeth Cymru, rydym yn lleihau ein cyllid pwrpasol tuag at raglen yr Economi Sylfaenol o £3m i £1.163m yn 2024-25. Mae'r hyn sydd wedi'i ddileu'n ymwneud ag elfen y Gronfa Cefnogi Cwmnïau Lleol yn y rhaglen AB. Byddwn yn lliniaru'r gostyngiad drwy weithio gyda Busnes Cymru i sicrhau eu bod yn canolbwyntio ar sectorau blaenoriaeth ac yn dysgu gwersi blaenorol o'r rhaglen."[58]

**54.** Pan ofynnwyd iddo am y gostyngiad hwn, dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor ei fod wedi ceisio peidio â chanolbwyntio ar y llinell honno yn y gyllideb fel yr unig faes gweithgaredd. Roedd yn awyddus i osgoi ei gwahanu oddi wrth weddill y gyllideb gan fod yr economi sylfaenol yn ehangach na'r hyn sy'n digwydd o fewn un llinell yn y gyllideb.[59] Dywedodd hefyd fod ymwreiddio a chefnogi'r Economi Sylfaenol ar draws y Llywodraeth yn bwysig:

> *"It's still about how we cannot just say it's embedded but continue to demonstrate how we're supporting the foundational economy through a range of different areas of Government activity, including those public services like TfW and our health service as well."*[60]

**55.** Aeth y Gweinidog ymlaen i sôn am yr ystod eang o weithgareddau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cyflawni sy'n cefnogi'r Economi Sylfaenol. Dywedodd ei bod yn gwneud mwy o waith gyda gwahanol rannau o'r Llywodraeth yn edrych ar sut y maent yn defnyddio eu hadnoddau i gyfrannu at hyn. Hoffai'r Gweinidog allu dweud wrth y Senedd bresennol 'Dyma'r hyn rydym yn ei wneud a dyma sut y mae'r economi sylfaenol yn cael ei chefnogi, ac amlinellu'r hynny mae'r Llywodraeth yn ei wneud i'w thyfu a'i hamddiffyn. Dywedodd hefyd y byddai hynny i'w weld ar draws ystod o feysydd. Crynhodd hyn gan ddweud ei fod yn awyddus i fod yn onest am y sefyllfa ac yn fwy cydlynol o ran yr hyn sy'n cael ei wneud i gefnogi'r economi sylfaenol drwy wahanol ganghennau'r Llywodraeth.[61]

Bu gan y Pwyllgor hwn a'r pwyllgor a'i rhagflaenodd ddiddordeb mawr yn yr Economi Sylfaenol. Mae'r Aelodau wedi clywed llawer iawn o dystiolaeth gref

[58] Tystiolaeth ysgrifenedig
[59] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 18 Ionawr 2024, Paragraff 335
[60] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 18 Ionawr 2024, Paragraff 337
[61] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 18 Ionawr 2024, Paragraff 342

am sut y gall cefnogi'r Economi Sylfaenol gefnogi twf economaidd cynaliadwy o ansawdd da, a sut y gall buddsoddiad sector cyhoeddus yn y sectorau Economi Sylfaenol greu a diogelu swyddi yng Nghymru. O ganlyniad i hyn, a chan fod gan Lywodraeth Cymru Ymrwymiadau yn y Rhaglen Lywodraethu sy'n ymwneud â'r Economi Sylfaenol, mae'r Aelodau'n awyddus iawn i allu craffu ar weithredoedd Llywodraeth Cymru yn y maes hwn yn effeithiol.

Mae'r Aelodau'n pryderu y gallai'r gostyngiad yn y gyllideb arwain at lai o gefnogaeth i'r Economi Sylfaenol, er nad oes gennym ffigurau ar gyfer gwariant ar draws y portffolios Gweinidogol eraill, sy'n ei gwneud yn anodd iawn dod i gasgliadau gwybodus. Er mwyn tawelu'r pryderon hyn, hoffai'r Aelodau allu gweld y darlun trawslywodraethol llawn o'r gefnogaeth sydd ar gael.

**Argymhelliad 19.** Dylai Llywodraeth Cymru egluro pa gymorth ariannol y mae'n ei ddarparu i'r Economi Sylfaenol ar draws portffolios Gweinidogol gwahanol yn 2024-25, a sut y mae hyn yn cymharu â 2023-24.

**Argymhelliad 20.** Er mwyn helpu i graffu ar gefnogaeth Llywodraeth Cymru i'r Economi Sylfaenol a rhoi eglurder ar y gwaith sy'n cael ei wneud yn y maes hwn ar draws y Llywodraeth, dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi Cynllun Cyflawni ar gyfer yr Economi Sylfaenol wedi'i ddiweddaru sy'n debyg i'r un a gynhyrchwyd tua diwedd y Senedd ddiwethaf. Dylai Llywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor ar y cynnydd a wnaed o ran cefnogi'r economi sylfaenol yn flynyddol.

## Cynllun Benthyciadau Busnes Gwyrdd Banc Datblygu Cymru

**56.** Lansiwyd Cynllun Benthyciadau Busnes Gwyrdd Banc Datblygu Cymru ym mis Chwefror 2023 fel cynllun peilot tair blynedd, gyda dyraniad cychwynnol o £10 miliwn. Fis Mawrth diweddaf, dywedodd swyddogion y Banc Datblygu wrth y Pwyllgor eu bod yn disgwyl cefnogi tua 170 o fusnesau drwy'r cynllun dros y tair blynedd nesaf. Yn yr un mis, dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor y bydd modd ffurfio barn ynghylch a yw'r cynllun yn rhywbeth y byddai'r Llywodraeth yn awyddus i'w weld yn cael ei ehangu yn ystod cyfnod y peilot neu ar ddiwdd y tair blynedd.[62]

**57.** Ar 28 Tachwedd, dywedodd Gweinidog yr Economi yn y Cyfarfod Llawn fod gormod o fusnesau wedi ceisio cymryd rhan yn y cynllun, ac mae Adroddiad ar Benderfyniad gan Lywodraeth Cymru yn dangos bod y Gweinidog wedi

[62] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 16 Mawrth 2023, Paragraff 241

cymeradwyo cyllideb ychwanegol ar gyfer rhwng 2023 a 2024 i gefnogi'r galw mawr am y cynllun ym mis Tachwedd. Ni roddwyd unrhyw fanylion am swm y gyllideb ychwanegol ac nid oes cyfeiriad ato ym mhapur y Gweinidog ar gyfer y cyfarfod hwn, er ei fod yn nodi: "Mae'r cynllun peilot gwerth £10m yn boblogaidd ymysg busnesau, a disgwylir y bydd £6m o fenthyciadau yn cael eu rhoi yn y flwyddyn ariannol hon."[63]

Mae gan y Pwyllgor ddiddordeb mawr yn y cynnydd a wnaed o ran Cynllun Benthyciadau Busnes Gwyrdd Banc Datblygu Cymru. Hoffai'r Aelodau glywed rhagor o fanylion am y cyllid ychwanegol a gyhoeddwyd a'i effaith.

**Argymhelliad 21.** Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu rhagor o wybodaeth am y nifer sy'n manteisio ar Gynllun Benthyciadau Busnes Gwyrdd Banc Datblygu Cymru. Fel rhan o hyn, dylent:

- ddarparu gwybodaeth am sut y mae lefel y galw am gymorth wedi'i gynnwys yn nyraniadau'r gyllideb;
- egluro a yw maint y Cynllun wedi cynyddu o'r £10 miliwn cychwynnol; a
- nodi faint o fusnesau sy'n cael eu cefnogi ac y disgwylir iddynt gael eu cefnogi yn y dyfodol gan y cynllun.

## Toriadau i'r gyllideb Brentisiaethau

**58.** Mae'r gyllideb ddrafft ar gyfer 2024-25 yn dangos toriad o £5.25 miliwn i'r llinell wariant yn y gyllideb ar gyfer Prentisiaethau, gan ddod â chyfanswm y cyllid ar gyfer y flwyddyn ariannol honno i £138.648 miliwn.[64] Mae papur tystiolaeth y Gweinidog yn egluro bod y gostyngiad net yn ymwneud â thoriad yn y gyllideb o 3.65% i'r rhaglen brentisiaeth a thoriad o 24% i werth y contract. Mae'n ychwanegu bod hyn yn rhan o gyfraniad Prif Grŵp Gwariant yr Economi at ymarfer ailflaenoriaethu ehangach Llywodraeth Cymru.[65]

**59.** Mae papur naratif Llywodraeth Cymru ar y Gyllideb Ddrafft yn nodi: "Er mwyn gallu byw o fewn ein setliad cyllido a darparu ar gyfer colli cyllid yr UE, bu'n rhaid inni adolygu ein gallu i gyflawni ein targed ar gyfer prentisiaethau. Rydym wedi adolygu'r hyn y gallwn ei gyflawni ac wedi addasu ein cyllid yn unol â hynny." Mae'n mynd ymlaen i ddweud: "O ganlyniad i ailflaenoriaethu £5m o gyllid, mae

[63] Tystiolaeth ysgrifenedig
[64] Naratif Llywodraeth Cymru ar Gyllideb Ddrafft 2024-25 | LLYW.CYMRU
[65] Tystiolaeth ysgrifenedig

disgwyl inni nawr sicrhau 110,000 o brentisiaethau newydd."[66] Byddai hyn yn ostyngiad o 15,000 o brentisiaethau newydd yn erbyn ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu.[67]

**60.** Mae colegau addysg bellach ledled Cymru yn bryderus iawn am y gostyngiad yn y gyllideb prentisiaethau. Cyflwynodd ColegauCymru dystiolaeth i'r Pwyllgor sy'n nodi y bydd penderfyniad Llywodraeth Cymru i wyrdroi ymrwymiad i ddarparu cyllid pontio yn sgil colli arian yr UE, ynghyd â thoriad yn y gyllideb o £17.5 miliwn yn ystod y flwyddyn ym mis Hydref, yn arwain at ostyngiad o tua 24.2% yng ngwerth y contract prentisiaeth o fis Awst y flwyddyn nesaf.[68] Mae eu dadansoddiad yn nodi mai effaith y toriadau arfaethedig hyn fydd tua 10,000 yn llai o brentisiaethau, sef gostyngiad o tua 50% ym mhrif raglen brentisiaethau Llywodraeth Cymru yn 2024/25.

**61.** Mynegodd ColegauCymru bryderon hefyd y byddai'r gostyngiad hwn mewn cyllid yn effeithio'n anghymesur ar brentisiaid newydd gan y byddai angen i ddarparwyr flaenoriaethu pobl sydd eisoes yn astudio. O ganlyniad, mae'n dweud y bydd y toriadau hyn yn effeithio'n anghymesur ar bobl ifanc (16-24 oed). Mae hyn oherwydd bod ychydig yn llai na hanner yr holl brentisiaid newydd yn 2021-22 rhwng 16 a 24 oed.

**62.** Ar y cyfan, mae'n pryderu y bydd y toriadau arfaethedig yn golygu y bydd yn debygol y bydd nifer y prentisiaethau yn ystod tymor 2021-2026 y Senedd yn llai na'r nifer yn nhymor diwethaf y Senedd, sef 2016-2021, er gwaethaf llu o addewidion i gynyddu nifer y prentisiaethau.[69] Mae ColegauCymru yn mynd ymlaen i ddweud y bydd y gostyngiad hwn mewn prentisiaethau hefyd yn cael effaith negyddol ar economi Cymru gan y bydd pobl yn colli'r cyfle i wella eu sgiliau, bydd y sector Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn dioddef oherwydd y bydd llai o brentisiaid yn y sector hwnnw, a bydd yr ymdrech i gyflawni'r targed sero net yn cael ei effeithio oherwydd gallai prentisiaethau yn yr economi werdd gael eu lleihau.

**63.** Dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor ei fod yn gweld pam mae'r darparwyr yn anhapus. Eglurodd:

> *"This, again, is one of those choices where no-one around this table would want to make that choice, and yet we've got to*

---

[66] Naratif Llywodraeth Cymru ar Gyllideb Ddrafft 2024-25 | LLYW.CYMRU
[67] Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru - Diweddariad
[68] Cyllideb Ddrafft ColegauCymru - Briff prentisiaethau Saesneg yn unig.pdf (senedd.cymru)
[69] Cyllideb Ddrafft ColegauCymru - Briff prentisiaethau Saesneg yn unig.pdf (senedd.cymru)

> *balance the budget. So, it's about how we do that and how we provide enough protection of our delivery system to make sure we don't just deliver more starts in the next year, but that we're then able, if we do see more—as I'm hopeful we will do—to have a better budget position so that we can then actually continue to grow the number of starts."*[70]

**64.** Eglurodd y Gweinidog ei fod hefyd am ddiogelu prentisiaethau sgiliau uwch, gan ddweud y gallai fod wedi dewis gwneud rhywbeth a fyddai'n lleihau nifer y cymwysterau ar ben uchaf y rhaglen brentisiaeth a sicrhau bod mwy o brentisiaid newydd yn dechrau ar y rhaglen. Dywdodd y byddai hynny wedi ei gwneud yn haws iddo'n wleidyddol. Er hynny, dywedodd ei fod wedi gwarchod y cydbwysedd o ran ansawdd yn y rhaglenni y mae'r Llywodraeth yn eu darparu ac mai dyma yw'r ateb cywir i'r economi.[71]

**65.** Dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor hefyd, er gwaethaf y gostyngiad mewn prentisiaethau newydd, y byddai mwy o brentisiaethau newydd yn ystod tymor y Senedd hon (2021-2026) nag a oedd yn yr un ddiwethaf (2016-2021). Dywedodd wrth yr Aelodau y byddai hynny'n gynnydd o 10 y cant ar yr hyn a gyflawnwyd yn ystod tymor diwethaf y Senedd, er na fyddai'n cyflawni'r cynnydd o 25 y cant yr oedd y Llywodraeth yn dymuno ei weld.[72]

Mae'r Pwyllgor yn bryderus iawn am effaith y gostyngiad yn y llinell wariant ar gyfer prentisiaethau. Er bod yr Aelodau'n nodi bod y Gweinidog yn gweithio gyda chyllideb gyfyngedig iawn, maent yn pryderu am yr effaith ar bobl ifanc. Er hynny, mae'r Pwyllgor yn cydnabod bod y Gweinidog wedi ailgyfeirio adnoddau mewn ffordd a fydd yn lliniaru rhywfaint ar yr effaith ar yr hyn y mae'r Aelodau'n poeni amdano o ran niwed posibl i economi Cymru a achosir gan leihau gallu dinasyddion Cymru i uwchsgilio eu hunain. O ganlyniad, mae'r Pwyllgor yn awyddus iawn i weld dadansoddiadau pellach o effaith y gostyngiad yn y gyllideb brentisiaethau.

Mae'r Aelodau'n nodi bod dryswch ynghylch nifer y prentisiaethau newydd y mae'r Gweinidog yn disgwyl eu cyflawni yn y Senedd hon. Hoffai'r Pwyllgor i'r Llywodraeth egluro'r targed a sut y mae'n bwriadu ei gyrraedd.

[70] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 18 Ionawr 2024, Paragraff 278
[71] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 18 Ionawr 2024, Paragraff 280
[72] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 18 Ionawr 2024, Paragraff 275

**Argymhelliad 22.** Dylai Llywodraeth Cymru ysgrifennu at y Pwyllgor yn amlinellu ei dadansoddiad o effaith y toriadau i'r gyllideb Brentisiaethau yng Nghyllideb Ddrafft 2024-25.

**Argymhelliad 23.** Dylai Llywodraeth Cymru ysgrifennu at y Pwyllgor yn nodi faint o brentisiaethau newydd sydd yn nharged prentisiaethau tymor y Senedd hon a sut y mae'r Llywodraeth yn bwriadu ei gyflawni.

## Masnach

### Toriadau i'r llinell wariant Allforio, Masnach a Mewnfuddsoddi

**66.** Mae dyraniad y llinell wariant Allforio, Masnach a Mewnfuddsoddi yng nghyllideb 2024-25 yn £3.752 miliwn. Mae hyn wedi'i ddiwygio i dynnu £440,000 oddi ar y dyraniad gwreiddiol o £4.192 miliwn. Mae'r £3.752 miliwn yn cynnwys:

- £3.572 miliwn i gyflawni'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Allforio; a
- £0.180 miliwn ar gyfer mewnfuddsoddi.

**67.** Mae hyn yn ostyngiad o 10.5% o gymharu â dyraniad cyllideb derfynol 2023-24 ar gyfer y llinell wariant yn y gyllideb, sef £4.192 miliwn. Mae'r Gweinidog yn egluro bod y gostyngiad o £440,000 yn rhan o ymarfer ailflaenoriaethu ehangach Llywodraeth Cymru.[73]

**68.** Mae'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Allforio yn un o bum cam gweithredu sy'n cyd-fynd â Strategaeth Ryngwladol Llywodraeth Cymru (2021-2025).[74] Mae'r Gweinidog yn egluro bod y dyraniad o £3.572 miliwn yn sicrhau bod busnesau'n gallu cael mynediad at ystod o gymorth allforio.[75] Ni ddarperir esboniad pellach, gan gynnwys ar elfennau allweddol o'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Allforio.

**69.** Nododd y Gweinidog y bydd £0.18 miliwn yn cefnogi eu hymdrechion i hyrwyddo Cymru fel cyrchfan ar gyfer mewnfuddsoddi, sef ymrwymiad allweddol yn y Strategaeth Ryngwladol a'r Genhadaeth Economaidd.[76] Eglurodd fod y gweithgarwch yn canolbwyntio ar ddau faes: buddsoddiad a arweinir gan gyfleoedd; a rhannau o'r economi lle y gall Cymru ddangos gallu o safon ryngwladol fel lled-ddargludyddion cyfansawdd, technoleg ariannol a seiberddiogelwch. Amlinellodd y Gweinidog raglen ymgysylltu helaeth sy'n cynnwys swyddfeydd tramor Llywodraeth Cymru, rhwydweithiau ehangach,

---

[73] Tystiolaeth ysgrifenedig
[74] Strategaeth Ryngwladol Llywodraeth Cymru
[75] Tystiolaeth ysgrifenedig
[76] Tystiolaeth ysgrifenedig

clystyrau hollbwysig mewn diwydiant a rhanddeiliaid gyda'r nod o godi proffil y cyfleoedd buddsoddi yng Nghymru.[77]

**70.** Dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor y bydd ei raglen fasnach ryngwladol yn cael ei "lleihau" o ganlyniad i'r toriadau yn y gyllideb a ddisgrifir uchod. Un effaith yw bod Llywodraeth Cymru yn disgwyl cymryd rhan mewn 16-17 o deithiau masnach dramor yn lle 19.[78] Dywedodd y Gweinidog Materion Gwledig, Gogledd Cymru, a'r Trefnydd wrth y Pwyllgor fod Llywodraeth Cymru yn archwilio gweithgarwch rhithwir i hyrwyddo allforion bwyd am yr un rheswm.[79] Pan ofynnwyd iddo ar ba sail y gwneir penderfyniadau i flaenoriaethu gweithgarwch, dywedodd Gweinidog yr Economi:

> *"I'll look at the size and scale of the market and have advice from the team about where the market is, what the biggest opportunities are and how we will do that."*[80]

**71.** Yn ei dystiolaeth ysgrifenedig, mae'r Gweinidog yn disgrifio goblygiadau parhaus gweithredu Cytundeb Masnach a Chydweithredu y DU a'r UE. Dywedodd fod y farchnad Ewropeaidd yn ffocws allweddol o weithgarwch hybu masnach y Llywodraeth, ac ailadroddodd mai'r UE yw partner masnachu mwyaf Cymru o hyd. Disgrifiodd y Gweinidog yr amgylchedd masnachu ar ôl Brexit fel un mwy biwrocrataidd a chostus i fusnesau. Dywedodd fod cefnogi busnesau i ddeall gofynion masnachu â'r UE a'r cyfleoedd i wneud hynny yn elfen hanfodol wrth gyflawni'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Allforio.[81]

Mae'r Pwyllgor yn pryderu am effaith lleihau'r llinell wariant allforio, masnach a mewnfuddsoddi yn y gyllideb ar economi a swyddi Cymru. Mae'r Aelodau'n croesawu ymgysylltiad y Gweinidog â'r Pwyllgor ar fasnach hyd yn hyn. Wrth symud ymlaen, hoffai'r Aelodau gael gwybod am effaith y gostyngiad hwn mewn gwariant. Hoffai'r Aelodau hefyd glywed mwy am weithgarwch Llywodraeth Cymru ar deithiau masnach a sut y mae'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Allforio yn cael ei gyflawni.

[77] Tystiolaeth ysgrifenedig
[78] Paragraff 372, Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 18 Ionawr 2024, Paragraff 372
[79] Paragraff 192, Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 18 Ionawr 2024, Paragraff 192
[80] Paragraff 374, Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 18 Ionawr 2024, Paragraff 374
[81] Tystiolaeth ysgrifenedig

**Argymhelliad 24.** Dylai Llywodraeth Cymru fonitro'n ofalus effaith lleihau'r llinell wariant Allforio, Masnach a Mewnfuddsoddi yn y gyllideb a rhoi gwybod i'r Pwyllgor am unrhyw effaith y mae hyn yn ei chael.

**Argymhelliad 25.** Dylai Llywodraeth Cymru ysgrifennu at y Pwyllgor i roi mwy o fanylion am weithgareddau o dan y Cynllun Gweithredu ar gyfer Allforio, gan gynnwys cadarnhau pa rai o'i chamau gweithredu tymor byr a chanolig sydd wedi'u cyflawni ac a fydd yn cael eu cyflawni yn erbyn cyllideb 2024-25.

**Argymhelliad 26.** Dylai Llywodraeth Cymru roi gwybod i'r Pwyllgor am ei chyfranogiad mewn teithiau masnach.

### Safleoedd Rheoli Ffiniau

**72.** Mae £6.426 miliwn wedi'i ddyrannu i linell wariant Rheoli Ffiniau newydd yn y gyllideb, gyda £6.4 miliwn ohono yn dod o gronfeydd wrth gefn. Ar gyfer cyllideb 2023-24, daeth Safleoedd Rheoli Ffiniau o dan y prif grŵp gwariant Materion Gwledig, fel cam gweithredu ar gyfer 'Monitro Materion Gwledig, Strategaeth Ymadael â'r UE a Safleoedd Rheoli Ffiniau' (o dan y llinell wariant Tystiolaeth Strategol, Monitro, Ffiniau a Monitro Rhynglywodraethol). Dyraniad y gyllideb derfynol oedd £3.389 miliwn. Mae'r llinell wariant hon yn y gyllideb a'r camau gweithredu yn parhau yng Nghyllideb Ddrafft 2024-25 gyda dyraniad llai o £2.639 miliwn (gostyngiad o £750,000 / 22.1%).[82]

**73.** Cadarnhaodd Gweinidog yr Economi fod Llywodraeth Cymru wedi gwario £9.3 miliwn hyd at 31 Mawrth 2023, sy'n cynnwys cyfraniad o £3.3 miliwn gan Lywodraeth y DU ar gyfer 2022-23. Cynghorodd y Gweinidog, ar sail y rhagdybiaethau presennol, nad oes disgwyl i gyfanswm y gwariant pellach a ragwelir dros y flwyddyn gyfredol (2023-24) a'r flwyddyn ariannol nesaf (2024-25) fod yn fwy na £70 miliwn. Mae Llywodraeth Cymru yn rhagweld y bydd costau'r rhaglen yn dod i ben ar ôl 2024-25 ond bydd hyn yn fwy eglur yn sgil dyddiad cychwyn y cytunwyd arno ar gyfer gwiriadau ffisegol.[83]

**74.** Yn ei bapur tystiolaeth, ailadroddodd y Gweinidog y datganiadau a wnaed i'r Pwyllgor fod Llywodraeth Cymru yn credu y dylai cyfleusterau Safleoedd Rheoli Ffiniau gael eu hariannu'n llawn gan Lywodraeth y DU. Rhoddodd y wybodaeth ddiweddaraf am y mater hwn, sef:

[82] Tystiolaeth ysgrifenedig
[83] Tystiolaeth ysgrifenedig

- Mae Trysorlys EF wedi ymrwymo i ariannu costau adeiladu ar gyfer Caergybi, Abergwaun a Doc Penfro;
- Yn ddiweddar, mae Llywodraeth y DU wedi gwrthod ariannu'r costau pontio i gyrraedd cyflwr sefydlog, gan gynnwys y costau i sefydlu'r trefniadau.
- Mae Llywodraeth y DU hefyd wedi gwrthod talu costau staffio ychwanegol Llywodraeth Cymru; mae Llywodraeth Cymru o'r farn y dylid talu'r costau hyn hefyd a'u bod yn amod iddi gytuno i Fodel Gweithredu Targed y Ffin.
- Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i drafod gyda Thrysorlys EF ac yn disgwyl penderfyniad yn fuan; a
- Mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud darpariaeth yng Nghyllideb Ddrafft 2024-25 o £6.4 miliwn ar gyfer y costau refeniw hyn, yn y cyfamser. Mae'r costau refeniw yn cynnwys costau cychwyn (recriwtio, hyfforddi ac ati) ar gyfer yr awdurdodau lleol cyn y cyflwynir taliadau, a chostau rhaglen Llywodraeth Cymru ei hun.[84]

Mae'r Pwyllgor yn pryderu ynghylch darparu Safleoedd Rheoli Ffiniau. Mae'r Aelodau'n deall mai cyfrifoldeb newydd i Lywodraeth Cymru yw hyn a bod y gofynion ar gyfer y Safleoedd wedi newid oherwydd ffactorau sydd allan o reolaeth Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, o ystyried difrifoldeb y pryderon ynghylch ariannu'r Safleoedd a esboniwyd gan y Gweinidog, byddai'r Pwyllgor yn croesawu mwy o wybodaeth am y mater hwn.

**Argymhelliad 27.** Dylai Llywodraeth Cymru ysgrifennu at y Pwyllgor yn esbonio sut y mae'r gweithgareddau sydd wedi'u cynllunio ar gyfer Safleoedd Rheoli Ffiniau yn cael eu rhannu rhwng y llinell wariant Tystiolaeth Strategol, Monitro, Ffiniau a Monitro Rhynglywodraethol yn y prif grŵp gwariant Materion Gwledig, a'r llinell Rheoli Ffiniau ym mhrif grŵp gwariant yr Economi.

**Argymhelliad 28.** Dylai Llywodraeth Cymru ysgrifennu at y Pwyllgor i roi'r wybodaeth ddiweddaraf ynghylch a yw Llywodraeth Cymru a llywodraeth y DU wedi dod i benderfyniad ar y cyllid ar gyfer Safleoedd Rheoli Ffiniau.

[84] Tystiolaeth ysgrifenedig

**Argymhelliad 29.** Dylai Llywodraeth Cymru ysgrifennu at y Pwyllgor i gadarnhau beth yw effaith bosibl dod i benderfyniad gyda Llywodraeth y DU ynghylch ariannu Safleoedd Rheoli Ffiniau ar ddyraniadau'r gyllideb ddrafft, gan gynnwys y £6.4 miliwn o gronfeydd wrth gefn a ddyrannwyd gan Lywodraeth Cymru i dalu costau tra bod y materion cyllid yn cael eu datrys gyda Llywodraeth y DU.

**Argymhelliad 30.** Dylai Llywodraeth Cymru egluro i'r Pwyllgor pa gyfran o'r £6.4 miliwn o gronfeydd wrth gefn yr oedd yn disgwyl eu derbyn gan Lywodraeth y DU. Dylai hefyd gadarnhau a yw'r swm hwn wedi newid yn dilyn trafodaethau rhynglywodraethol o ganlyniad i benderfyniad Llywodraeth y DU i beidio ag ariannu agweddau ar y Safleoedd Rheoli Ffiniau, fel y disgrifir gan y Gweinidog.

### Cytundebau masnach ryngwladol

**75.** Nid oes dyraniad drafft penodol ar gyfer cytundebau masnach ryngwladol ac nid yw'r Gweinidog wedi sôn am gostau cysylltiedig posibl yn ei dystiolaeth. Fodd bynnag, yn ei dadansoddiad o'r Cytundeb Cynhwysfawr a Blaengar ar gyfer Partneriaeth y Môr Tawel, dywed Llywodraeth Cymru fod cenhadaeth fasnach wedi'i chynllunio ar gyfer Awstralia ym mis Mawrth 2024, gyda chynlluniau posib ar gyfer ymweliadau marchnad â gwledydd eraill sy'n aelodau o'r Bartneriaeth yn y dyfodol.[85]

Hoffai'r Pwyllgor gael mwy o wybodaeth am y gyllideb ar gyfer teithiau masnach a chostau cysylltiedig eraill sy'n gysylltiedig â chytundebau masnach ryngwladol.

**Argymhelliad 31.** Dylai Llywodraeth Cymru ysgrifennu at y Pwyllgor i gadarnhau a oes unrhyw gostau wedi'u cynllunio yn 2024-25 sy'n ymwneud â gweithredu cytundebau masnach ryngwladol ar ôl Brexit, gan gynnwys gweithredu, teithiau masnach a theithiau tramor gan y Gweinidogion.

[85] Y DU yn dod yn aelod o Bartneriaeth Gynhwysfawr a Blaengar y Môr Tawel: safbwynt Llywodraeth Cymru (Saesneg yn unig)